CANLLAWIAU

# Grantiau band eang: hysbysiad preifatrwydd i ymgeiswyr

Sut rydym yn storio ac yn defnyddio'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 25 Mai 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 25 Mai 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grantiau-band-eang-hysbysiad-preifatrwydd-i-ymgeiswyr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cefndir**

**Sut byddwn ni'n defnyddio'ch data**

**Beth yw sail cyfreithiol Llywodraeth Cymru wrth ddefnyddio eich gwybodaeth?**

**Â phwy mae Llywodraeth Cymru'n rhannu eich gwybodaeth?**

**Am ba hyd y byddwn yn cadw'r data hwn (Cyfnod Cadw)?**

**Eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grantiau-band-eang-hysbysiad-preifatrwydd-i-ymgeiswyr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn gwybodaeth gan unigolion, busnesau a chymunedau, fel rhan o'u cais wrth wneud cais am arian grant band eang. Derbynnir data gan ymgeiswyr ar y camau canlynol yn y broses o roi grant:

- Y cam ymgeisio
- Y cam cynnig arian
- Y cam hawlio o’r gronfa
- Adborth o unrhyw arolwg uniongyrchol a gynhaliwyd gan Dîm Grantiau Band Eang Seilwaith TGCh

Ar ôl derbyn yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu, daw Llywodraeth Cymru yn rheolwr data.

## Sut byddwn ni’n defnyddio’ch data

Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio i gefnogi'r gwaith o werthuso eich cais, a dyfarnu cyllid grant sy'n berthnasol i gynlluniau'r grant band eang. Bydd manylion ariannol yn cael eu rhannu gydag Is-adran Cyllid Canolog Llywodraeth Cymru ac unrhyw asiantaethau atal twyll/gorfodi'r gyfraith wrth ganfod, ymchwilio ac atal troseddu. Ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol arall yn cael ei rhannu y tu hwnt i Is-adran Seilwaith TGCh Llywodraeth Cymru.

Bydd gwybodaeth yn cael ei chasglu o geisiadau grant yn ymwneud â chyflymder band eang a gyflawnwyd. Ni fydd yr wybodaeth hon yn eich adnabod fel unigolyn; gall gael ei goladu a'i rannu gyda Gweinidogion Cymru mewn ymateb i gwestiynau yn ymwneud â'r cynulliad. Bydd ymatebion i gwestiynau'r Cynulliad ar gyflymder yn cael eu cyflwyno ar lefel generig, ehangach yn unig.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grantiau-band-eang-hysbysiad-preifatrwydd-i-ymgeiswyr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

O bryd i'w gilydd gall y dystiolaeth sy'n cyd-fynd â'r ceisiadau band eang gynnwys cyfeiriad IP. Ni fydd tîm Grantiau Band Eang Llywodraeth Cymru yn rhannu'r wybodaeth hon y tu hwnt i'r Is-adran Seilwaith TGCh. Yr unig eithriad sy'n bod ar y cais am wybodaeth gan asiantaethau cyfraith perthnasol pan gaiff ei ddefnyddio at ddiben atal neu ganfod troseddau.

Bydd eich gwybodaeth hefyd yn cael ei defnyddio at ddibenion ystadegol ac ymchwil a fydd yn helpu i lywio, dylanwadu a gwella polisïau wrth gynllunio gwasanaethau band eang a chymorth band eang i bobl/ busnesau yng Nghymru. Bydd unrhyw adroddiadau sy'n cael eu creu fel rhan o ymchwil o'r fath yn cael eu gwneud yn ddienw.

## Beth yw sail cyfreithiol Llywodraeth Cymru wrth ddefnyddio eich gwybodaeth?

Mae prosesu yr wybodaeth bersonol a ddarperir yn angenrheidiol ar gyfer perfformiad, monitro ac arfarnu eich cais am gyllid gan ei fod yn ymwneud â chynlluniau'r grant band eang.

Cyn i ni ddarparu cyllid i chi neu'ch sefydliad, rydym yn cynnal gwiriadau at ddibenion atal twyll a gwyngalchu arian, ac i wirio pwy ydych. Mae'r gwiriadau hyn yn gofyn i ni brosesu data personol amdanoch chi.

Pan fyddwn yn prosesu'ch data personol rydym yn gwneud hynny ar y sail ei fod er budd y cyhoedd i atal twyll a gwyngalchu arian, ac i gadarnhau hunaniaethau, er mwyn ein diogelu a chydymffurfio â deddfwriaeth sy'n berthnasol i ni. Mae prosesu o'r fath hefyd yn ofynnol o'r cyllid yr ydych wedi gofyn amdano.

## Â phwy mae Llywodraeth Cymru'n rhannu eich

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grantiau-band-eang-hysbysiad-preifatrwydd-i-ymgeiswyr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## gwybodaeth?

- Ar ôl gwneud y data yn ddienw yn gyntaf, unrhyw bersonau sy'n cynnal ymchwil i gyflawni'r cynlluniau grantiau band eang.
- Swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r broses o werthuso eich cais am grant, a lle bo hynny'n berthnasol, prosesu cynnig o gyllid.
- Gall data rydych wedi'i ddarparu gael ei rannu gydag asiantaetha atal twyll / gorfodi'r gyfraith os ydym yn amau neu'n canfod twyll.

Dim ond ar gyfer pwrpas penodol y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu data ac am gyfnod cyfyngedig, ac ar ôl hynny mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gadarnhau ei fod wedi'i ddinistrio. Rhaid i unrhyw ddadansoddiad sy'n cael ei gynhyrchu ddilyn rheolau datgelu Llywodraeth Cymru. At ddibenion ymchwil mewn unrhyw arolygon sy'n digwydd, bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio technegau sy'n sicrhau fod y data'n cael eu gwneud yn ddienw cyn i unrhyw waith ymchwil ddigwydd. Mae rhannu data dienw y tu allan i GDPR.

Dylid nodi, os yw Llywodraeth Cymru, neu asiantaeth atal twyll/ gorfodi’r gyfraith, yn penderfynu eich bod yn peri risg o dwyll neu wyngalchu arian, fod Llywodraeth Cymru'n cadw'r hawl i wrthod darparu'r cyllid yr ydych wedi gofyn amdano, neu efallai y byddwn yn rhoi'r gorau i ddarparu cyllid sy'n bodoli eisoes i chi. Os hoffech wybod mwy, cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth gan ddefnyddio'r manylion a ddarperir isod.

Bydd cofnod o unrhyw dwyll neu risg gwyngalchu arian yn cael ei gadw gan yr asiantaethau atal twyll, a gallent arwain at eraill yn gwrthod darparu gwasanaethau, gyllid neu gyflogaeth i chi. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn, cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth gan ddefnyddio'r manylion a ddarperir isod.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grantiau-band-eang-hysbysiad-preifatrwydd-i-ymgeiswyr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Am ba hyd y byddwn yn cadw'r data hwn (Cyfnod Cadw)?

Bydd Llywodraeth Cymru'n cadw'r data hwn tan i saith mlynedd (84 mis) fynd heibio o'r taliad terfynol sy'n ymwneud â dyfarnu cyllid, neu ddwy flynedd (24 mis) wedi derbyn cais aflwyddiannus am gyllid (pa un bynnag fydd y cyfnod byrraf). Ar ôl y pwynt hwn bydd y data'n cael eu gwneud yn ddienw/yn cael eu dinistrio. Os ystyrir eich bod chi neu'ch sefydliad yn peri risg o dwyll neu wyngalchu arian, gellir cadw eich data gan asiantaethau atal twyll/gorfodi'r gyfraith am hyd at chwe blynedd ar ôl ei dderbyn.

## Eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Mae gennych hawl i:

- gael mynediad i'r data personol y mae cynlluniau grantiau band eang Llywodraeth Cymru yn prosesu amdanoch
- ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gywiro anghywirdebau yn y data hwnnw
- gwrthwynebu prosesu ar seiliau sy'n ymwneud â'ch sefyllfa benodol (mewn rhai amgylchiadau)
- cyfyngu ar brosesu (mewn rhai amgylchiadau)
- wneud cais i'ch data personol gael ei ddileu neu ei gywiro
- cyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

Am fwy o wybodaeth am yr wybodaeth sydd gan Lywodraethau Cymru a'r defnydd ohoni, neu os ydych am arfer ein hawliau o dan y GDPR, gweler y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grantiau-band-eang-hysbysiad-preifatrwydd-i-ymgeiswyr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ebost: **data.protectionofficer@llyw.cymru**

Os ydych yn anhapus am sut mae eich data personol wedi cael ei ddefnyddio, cyfeiriwch at **bolisi cwynion Llywodraeth Cymru.**

Gallwch hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sy'n rheoleiddio prosesu data personol.

I gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gweler y manylion isod:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 029 2067 8400 (Llinell Gymorth Cymru) neu 0303 123 1113 (Llinell Gymorth y DU)

Ebost: **wales@ico.org.uk**

Gwefan: **https://ico.org.uk/**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grantiau-band-eang-hysbysiad-preifatrwydd-i-ymgeiswyr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grantiau-band-eang-hysbysiad-preifatrwydd-i-ymgeiswyr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.